

Prosiect Ymholiadau Proffesiynol Cenedlaethol

Adroddiad chwarterol – Cylch 3: Crynodeb

Prifysgol Bangor Prifysgol Metropolitan Caerdydd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Medi 2019

1. Ffocws yr ymholiad

1.1 Comisiynwyd Prifysgol Bangor (PB), Prifysgol Metropolitan Caerdydd (PMC) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) gan Lywodraeth Cymru yn haf 2018 i oruchwylio cyfres o ymholiadau proffesiynol gydag Ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol. Mae pob prifysgol yn gyfrifol am weithio gyda'i Meysydd Dysgu a Phrofiad cysylltiedig ei hun, fel a ganlyn:

PB: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

PMC: Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles.

PCYDDS: Mathemateg a Rhifedd; Dyniaethau.

1.2 Lanswyd Cylch 1 ar 5 Tachwedd 5 2018, a daeth i ben ar 3 Rhagfyr 2018. Roedd gan bob prifysgol ddull ychydig yn fwy cynnil o gytuno ar ffocws yr ymholiad, methodolegau arfaethedig a chymorth dilynol. Cofnodwyd canfyddiadau'r Cylch hwn mewn adroddiad cryno a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w ystyried ar 20 Rhagfyr, 2018.

1.3 Lanswyd Cylch 2 ar 7 Ionawr 2019, a daeth i ben ar 1 Ebrill 2019. Cofnodwyd canfyddiadau'r Cylch hwn mewn adroddiad cryno a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w ystyried ar 14 Mai, 2018.

1.4 Lanswyd Cylch 3 ar 29 Ebrill 2019, a daeth i ben ar 5 Gorffennaf 2019. Yn bennaf, roedd y cylch yn ymestyn y gwaith a ddechreuwyd yn ystod cylchoedd 2 a 3.

1.5 Fel yng Nghylch 1 a Chylch 2, gwahoddwyd ysgolion a oedd yn gweithio gyda PB yng Nghylch 3 i ddewis eu ffocws ymholi eu hunain, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u cyd-destun unigol, o restr a ddrafftwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y themâu cyffredin y cytunwyd arnynt yn cynnwys:

- Cynllunio ar gyfer cwricwlwm a yrrir gan ddiben

- Addysgeg a sut mae dysgu'n gweithio
- Dysgu ar sail prosiectau
- Y goblygiadau o ran arwain a rheoli

1.6 Cytunodd PCYDDS ag ysgolion y byddai themâu'r ymholiad trosfwaol, sef 'cynllunio ar gyfer cwricwlwm a yrrir gan ddiben' ac 'addysgeg a sut mae dysgu'n gweithio', yn aros yr un fath ar gyfer Cylch 3 ag oedden nhw yng Nghylch 1 a Chylch 2. Roedd y grŵp o'r farn ei bod yn briodol parhau â'u hymholiadau dysgu proffesiynol penodol, yn hytrach na newid cyfeiriad, yn enwedig o ystyried y gweithgareddau cystadleuol sy'n gysylltiedig â thymor prysur yr haf.

1.7 Roedd PMC a'i hysgolion yn canolbwyntio yng Nghylch 3 ar y goblygiadau dysgu proffesiynol i athrawon a staff cymorth o ran Meysydd Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol ac Iechyd a Lles.

1.8 Cytunodd Llywodraeth Cymru ar amrywioldeb yn yr ymagweddau ymchwil a wnaed gan Ysgolion Arloesi unigol ac roedd pob prifysgol a'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn deall hynny.

2. Strategaeth ymgysylltu

2.1 Cynhaliwyd tair sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb gydag ysgolion ac fe'u hwyluswyd gan brifysgolion a oedd yn ymwneud â Chylch 3. Roedd y cyntaf yn pontio dau gylch ac fe'i cynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2019, yng Ngwesty St George yn Llandudno, Conwy. Cynhaliwyd yr ail yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, ar 12 Mehefin 2019, a'r trydydd yng Ngwesty Marriott Abertawe ar 10 Gorffennaf 2019. Y tu allan i'r sesiynau cyswllt hyn, mae'r prifysgolion wedi ymgysylltu ag ysgolion gan ddefnyddio Microsoft Teams (sgwrsio a rhannu ffeiliau), drwy ohebiaeth e-bost, a thrwy'r consortia addysg rhanbarthol.

2.2 Mae'r prifysgolion wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth Cymru (cynhadledd fideo/e-bost/dros y ffôn/cyfarfodydd wyneb yn wyneb) ynghylch rheoli'r prosiect a chyfrifoldebau cytundebol eraill. Yn ogystal, mae pob prifysgol wedi bod mewn deialog barhaus gyda chydweithwyr o brifysgolion partner.

2.3 Yn gynyddol, mae'r prifysgolion wedi bod mewn cysylltiad â'u consortiwm addysg rhanbarthol yn eu hardaloedd, a'r consortia yn fwy cyffredinol. Mae sgysgiau wedi cynnwys gwerthuso cynnydd eang ymholiadau a wnaed gan Ysgolion Arloesi a chyfleu disgwyliadau o ran ymwneud â'r prosiect fel y'i deallir ar hyn o bryd gan gomisiynwyr a rhanddeiliaid.

2.4 Yng Nghylch 3, gweithiodd Ysgolion Arloesi PMC ar y cyd mewn grwpiau rhanbarthol i archwilio eu cwestiynau ymholi. Ar wahân i'r ysgolion arbennig, a fu'n gweithio gyda'i gilydd fel grŵp Cymru gyfan, roedd y grwpiau'n cynnwys cymysgedd o ysgolion cynradd ac uwchradd.

3. Crynodeb o ymateb yr ymholiad

3.1 Roedd yr ymatebion i PMC mewn perthynas â dylunio a chynllunio'r cwricwlwm yn cynnwys y canlynol:

- Cydnabyddiaeth gyffredinol bod angen newid addysgeg er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ac na ddylai staff fod yn hunanfodlon am y newid sydd ei angen;
- Cydnabod yn gyffredinol bod angen dysgu proffesiynol ar ddulliau addysgegol newydd; fodd bynnag roedd yn ymddangos bod agwedd gadarnhaol tuag at yr angen hwn;
- Roedd yn ymddangos bod ysgolion cynradd yn fwy hyderus ac wedi'u paratoi'n well ar gyfer y cwricwlwm newydd o'u cymharu ag ysgolion uwchradd;
- Ystyriaethau a phryderon ynglŷn â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y cwricwlwm newydd, gyda llawer yn awgrymu'r angen am archwiliad sgiliau mewn ysgolion i helpu gyda'r gwaith paratoi;
- Roedd y mater o gael amser ar gyfer y cynllunio angenrheidiol, dysgu proffesiynol a gweithredu'r newid yn uchel iawn ar restr pryderon pobl;
- Cydnabod y dylai disgyblion gael eu cynnwys wrth gynllunio'r cwricwlwm newydd, ac y dylid rhoi gwybod i rieni hefyd am y newidiadau sy'n digwydd.
- Cydnabod bod angen archwilio adnoddau, a'r posibilrwydd o uwchraddio adnoddau, i gefnogi'r cwricwlwm newydd, yn enwedig o ran TG. Soniodd llawer am yr angen i glystyru a rhannu adnoddau yn fwy effeithiol. Roedd hyn hefyd yn ymwneud â dod â phobl â sgiliau arbenigol i mewn;
- Cafwyd cryn dipyn o sylwadau a oedd yn ymwneud â ffyrdd newydd o grwpio disgyblion gyda'i gilydd i hwyluso eu dysgu.

3.2 Roedd yr ymatebion i PMC yn ymwneud â dysgu proffesiynol cydweithredol yn cynnwys y canlynol:

- Cydnabod bod dysgu proffesiynol yn hanfodol i bob aelod o staff wrth symud ymlaen, ond roedd cydnabyddiaeth hefyd fod angen newid meddylfryd rhai aelodau staff;
- Bod yna rai enghreifftiau da iawn o ddysgu proffesiynol yn digwydd eisoes, ond nid oedd hyn yn gyffredin;
- Cydnabod y dylai dysgu proffesiynol ddigwydd mewn sawl ffurf a chael ei integreiddio i'r diwrnod ysgol yn hytrach na dim ond cael ei weld fel 'mynd ar gwrs', e.e. o fewn yr ystafell ddosbarth ei hun a thrwy arsylwi ar gymheiriaid, yn ogystal â thrwy ddiwrnodau o ddigwyddiadau ffurfiol a gweithgareddau arbenigol;
- Bod angen i weithgareddau dysgu proffesiynol fod ar gael i lywodraethwyr a staff cymorth yn ogystal ag athrawon. Awgrymodd adborth nad yw staff cymorth yn benodol, ar hyn o bryd, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cwricwlwm newydd fel y mae athrawon;

- Amlygwyd ystod o feysydd gwahanol mewn perthynas â dysgu proffesiynol. Roedd hyn yn amrywio o gynllunio, i dechnolegau a sgiliau newydd;
- Pwysigrwydd addysg gychwynnol athrawon (AGA) wrth ddarparu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i athrawon newydd;
- Bod cydweithio yn hanfodol bwysig ar gyfer dysgu proffesiynol, rhannu arferion gorau a gwneud defnydd effeithlon o amser ac adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys gweithio o ysgol i ysgol; ymweliadau ag ysgolion eraill; gwneud y defnydd gorau o'r clystyrau; defnyddio Hwb fel cyfrwng i gydweithio; a rhannu syniadau a phrofiad rhwng arweinwyr Ysgolion Arloesi ledled Cymru;
- Pwysigrwydd cydweithio rhwng ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd cysylltiedig i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth;
- Bod arferion cydweithredol ffurfiol eisoes yn digwydd ar draws rhai ysgolion, ond nid yw hyn yn gyffredin;
- Cydnabyddiaeth bod gan asiantaethau allanol rôl bwysig i'w chwarae wrth ddarparu mewnbwn i ddysgu proffesiynol.

3.3 Roedd yr ymatebion i PMC yn ymwneud ag asesu yn cynnwys y canlynol:

- Pryder cyffredinol ynghylch sut y bydd asesu'n gweithio'n gyffredinol yn y cwricwlwm newydd;
- Pryderon ynghylch sut y bydd profion cenedlaethol ac arholiadau TGAU yn cael eu hasesu;
- Cael eglurhad ynghylch a fydd arholiadau newydd yn dod i mewn yn lle TGAU ac a fyddai cyflogwyr yn gweld gwerth ynddyn nhw;
- Codwyd ystyriaethau ynghylch faint o amser fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer asesiadau, a'r cynnydd posibl yn y llwyth gwaith;
- Cefnogaeth gyffredinol i'r ffocws ar asesiadau ffurfiannol, asesu gan gymheiriaid a hunanasesiadau, gyda llawer o ysgolion yn adrodd eu bod yn defnyddio'r dulliau asesu hyn eisoes;
- Pryder y byddai asesu yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad yn hytrach na chyflawniad, ac na ddylai asesu fod yn ymarfer ticio blychau;
- Codwyd dull cyson o asesu fel pryder, gydag awydd am gysondeb ar draws y consortia yn ogystal â rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion;
- Awgrym y byddai e-bortffolios yn helpu i gefnogi cysondeb o ran asesu;
- O ran rhoi adborth i fyfyrwyr, yr ystyriaeth o bwy fyddai'n darparu adborth gyda'r strwythur meysydd dysgu a phrofiad newydd.

3.4 Roedd pob grŵp a oedd yn gysylltiedig â PMC yn defnyddio holiadur ar-lein fel eu dull o ymholi proffesiynol o ddewis yn ystod Cylch 3. Roedd y rhesymau a roddwyd dros y dull hwn fel a ganlyn:

- Roedd yn galluogi casglu amrywiaeth eang o ymatebion mewn amser byr;
- Roedd yn darparu dull cyson o gasglu data ar draws yr holl ysgolion dan sylw;

- Roedd yn ffordd ymarferol o gasglu data ar draws ysgolion a oedd weithiau'n eithaf pell oddi wrth ei gilydd yn ddaearyddol.

4. Crynodeb o oblygiadau dysgu proffesiynol (cyffredinol/yn benodol i'r Maes Dysgu a Phrofiad)

4.1 Mae'n her gwahanu goblygiadau dysgu proffesiynol generig a'r rhai sy'n benodol i Faes Dysgu a Phrofiad ar ôl dau gylch ymholi yn unig. Fodd bynnag, daeth rhai sylwadau rhagarweiniol i'r amlwg wrth i bob cylch fynd rhagddo sy'n teilyngu sylw.

4.2 Ceir sylw cyffredin yn ymwneud â'r diffyg ymhlith ysgolion a staff o ran bod yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac ar gyfer cymryd rhan yn y math hwn o waith ymholi. Er enghraifft, awgrymwyd bod athrawon iau sydd newydd gymhwyso wedi bod yn fwy tebygol o groesawu'r newidiadau hyn nag athrawon hŷn, mwy profiadol. Mae'n dod yn fwyfwy amlwg y bydd angen newid meddylfryd a diwylliant wrth fabwysiadu'r agenda ddiwygio bresennol. Mae hyn i bob golwg yn berthnasol i athrawon o bob ystod oedran a disgyblaeth, fel y tystia'r datganiad a ganlyn gan un ysgol:

'Mae newid yn beth anodd i'w reoli ac mae'r anghyfarwydd yn arwain at banig. Yr hyn sy'n allweddol ar gyfer y cyfnod pontio hwn yw rhoi amser ar gyfer yr addasiad hwn, gydag arweinyddiaeth yn galluogi diwylliant lle mae meddylfryd gwahanol yn cael ei hyrwyddo.'

4.3 Mae angen i ysgolion sy'n cymryd rhan mewn ymholi gweithredol ystyried cyfranogiad a materion sy'n ymwneud â chydysynio yn ofalus. Roedd awgrym o hyn mewn nifer o adroddiadau (er enghraifft, roedd nifer fawr o ffurflenni caniatâd rhieni nad oeddent wedi eu dychwelwyd yn rhwystr i un ysgol benodol). Bydd ysgolion sy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn ymholi gweithredol yn gofyn am gyngor ar systemau gweithredu a fyddai'n galluogi'r broses hon i fod yn llawer symlach, tra'n dal i fod yn foesebol gadarn. Mae angen dulliau mwy effeithlon o gyflawni tasgau mwy llafurus a gweinyddol. Mewn llawer o achosion, ymgynghorodd ysgolion yn aml â'u prifysgol partner i sicrhau cymeradwyaeth foesebol cyn cynnal gweithgarwch ymchwil.

4.4 Bydd angen i ysgolion gael gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o lenyddiaeth ymchwil sy'n bodoli eisoes ac, yn wir, ble a sut i gael gafael arni. Mae canfyddiad ar hyn o bryd nad yw ymchwil academaidd, a adolygir gan gymheiriaid ac erthyglau cysylltiedig yn cael eu cyfeirio'n ddigonol ar gyfer athrawon sydd â diddordeb mewn maes pwnc/maes penodol. Mae cael amser i ymgysylltu'n ystyrlon ag ymchwil cydnabyddedig hefyd yn her a gallai prifysgolion sydd ag arbenigedd yn y maes hwn chwarae rhan yn y gwaith o gefnogi'r ymdrech hon.

4.5 Efallai mai'r goblygiad dysgu proffesiynol mwyaf ailadroddus oedd hwnnw'n ymwneud â dogfennau'r cwricwlwm eu hunain, a'r angen dybryd i staff ysgol ymgysylltu'n ystyrlon â deunyddiau sydd wedi'u cyhoeddi. Nododd nifer o

ysgolion yr amser a gymerwyd i gydweithwyr gynefino â'r amrywiol ddatganiadau 'Beth sy'n Bwysig' a 'Chamau Cynnydd', ac anogwyd llunwyr polisïau i ystyried yr amser a'r gofod sydd eu hangen er mwyn i athrawon ymgwyfarwyddo' â'r derminoleg a'r disgwyliadau newydd. Fel y nododd yr ysgolion canlynol:

'Gyda'r angen i herio pobl, eu hannog i ymgwyfarwyddo â gwybodaeth newydd, dehongli'r wybodaeth newydd a'i chymhwyso, mae'n rhaid iddi fod â lefel uchel o optimistiaeth i wrthweithio straen eu llwythi gwaith. Mae amser yn hanfodol os ydym am i athrawon gymryd rhan mewn deialogau ac ymchwil proffesiynol cadarn.'

'Mae amser i gydweithio yn allweddol i newid meddylfryd ac mae'r cyfle i ganfod sut mae'r pedwar diben yn gwireddu eu hunain yn yr ystafell ddosbarth drwy amrywiaeth o addysgeg yn allweddol. Felly, os yw'r pedwar diben yn cael eu datblygu yn y dosbarth, beth fyddech chi'n clywed disgyblion yn ei ddweud, beth fyddech chi'n gweld disgyblion yn ei wneud, pa fath o amgylchedd/awyrgylch fyddai'n cael ei greu gan y disgyblion? Rhaid archwilio, datblygu ac adlewyrchu hyn er mwyn creu dysgwyr ar gyfer y dyfodol.'

- 4.6 Nodwyd ar fwy nag un achlysur na fyddai o angenrheidrwydd yn bosibl trosglwyddo arferion da mewn ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd, ac i'r gwrthwyneb. Ymhlith y rhesymau a nodwyd am hyn roedd y gwahaniaeth yn nifer y staff addysgu, maint dosbarthiadau, adnoddau, a'r gofod dysgu oedd ar gael. Bydd angen ystyried hyn a'i archwilio ymhellach wrth i weithlu addysgu dysgu proffesiynol Cymru ddatblygu. Serch hynny, awgrymwyd bod gan ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd lawer i'w ddysgu oddi wrth ei gilydd ac roedd ambell ysgol wedi elwa'n sylweddol ar ymweld â gwahanol leoliadau a phrofi arferion gwahanol. Gwnaeth un ysgol arsylwad diddorol yn seiliedig ar ei phrofiad ei hun:

'Ym mron pob achos roedd staff yn teimlo bod y cyfle i rannu syniadau am strategaethau ac addysgeg yn ddefnyddiol iawn ond yn gyffredinol ni allent ddod i gonsensws am bwnc neu weithgaredd penodol y gallent ei gynllunio gyda'i gilydd. Mae gan ysgolion leoliadau gwahanol, disgyblion gwahanol a gwahanol ffyrdd o drefnu myfyrwyr.'

- 4.7 Yn yr un modd, nodwyd bod pwysigrwydd gweithio ar y cyd yn werth ei ystyried wrth symud ymlaen, ac awgrymodd nifer o ysgolion y byddai cyfleoedd strwythuredig amlach i rannu profiadau gyda chydweithwyr o fudd. Bydd sefydlu mecanwaith addas ar gyfer lledaenu canfyddiadau cynnar yn hanfodol os yw pob ymarferwr i fanteisio ar weithgarwch peilot sy'n cael ei wneud yn ysgolion Cymru ar hyn o bryd, a'i ddatblygu. Galwodd un ysgol am arweiniad mwy pendant ar sut i fynd ati i ddysgu oddi wrth ei gilydd, a dywedodd:

'Bydd edrych ar Ysgolion Arloesi eraill, [a] chynllunio a rhannu o fewn clwstwr, consortia ac ar draws consortia yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y broses gynllunio yn cael ei thrawsnewid er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno a datblygu'r cwricwlwm newydd. Byddai arweiniad a chymorth gan Lywodraeth Cymru gyda hyn yn fuddiol iawn fel man cychwyn i bob ysgol addasu i'w hamgylchoedd.'

- 4.8 Roedd yn nodedig bod rhai ymholwyr wedi datblygu eu canfyddiadau Cylch 2 fel tystiolaeth sylfaenol ar gyfer Cylch 3. Mae'r esblygiad hwn o feddwl ac addasu cylchoedd i fodloni angen cydnabyddedig yn awgrymu y gall dull seiliedig ar dystiolaeth o ymholi proffesiynol arwain at ganlyniadau cryfach a chamau mwy cynaliadwy. Fel yr eglurodd un ysgol:

'Mae canlyniadau Cylch 2 wedi llywio'r ffocws ar gyfer Cylch 3. Roedd yn amlwg o Gylch 2, bod ymarferwyr yn teimlo bod cyfleoedd cyfyngedig i blant arwain a chwarae rolau mewn timau yn effeithiol [canlyniad y canfyddiadau]. Mae Cylch 3 yn canolbwyntio ar y cyfle hwn o fewn pob un o'r 6 maes dysgu a phrofiad ac yn anelu at nodi rhwystrau a chryfderau dysgu cydweithredol.'

- 4.9 Nodwyd bod gan asiantaethau allanol rôl bwysig i'w chwarae o ran darparu mewnbwn arbenigol i ddysgu proffesiynol.

- 4.10 Yn yr un modd, awgrymwyd bod gan staff cymorth ran hanfodol i'w chwarae yn yr agenda ddiwygio barhaus a bod barn, ar hyn o bryd, mai ychydig o ddysgu proffesiynol am y cwricwlwm newydd maen nhw wedi'i gael.

- 4.11 Roedd mwyafrif llethol y cyfranogwyr o'r farn bod y staff a oedd yn ymwneud â'r broses ymholi gweithredol wedi bod yn frwd dros y gwaith ac wedi ymroi iddo. Roedd ysgolion yn gwerthfawrogi cael eu cyflwyno i fodelau ymholi penodol a oedd yn hyrwyddo cydweithio, ond hefyd yn caniatáu hyblygrwydd. Yn wir, archwiliodd rhai ysgolion ffyrdd gwahanol o weithio gyda'r modelau hynny. Yn yr un modd, mae pob prifysgol wedi cydnabod hyder cynyddol ysgolion yn y broses ymholi proffesiynol, er bod yr hyder hwn wedi cymryd amser i'w feithrin. Roedd yr adborth gan ysgolion yn cynnwys y canlynol:

'Mae'n amlwg bod y prosiect hwn wedi cael effaith sylweddol ar y cyfranogwyr. Bu cynnydd mewn gwybodaeth a hyder gyda'r cwricwlwm newydd fel nodwedd generig ond hefyd yn benodol iawn mewn mathemateg. Defnyddiwyd terminoleg newydd yn rhwydd erbyn diwedd y cylch ac roedd yn amlwg bod dealltwriaeth o'r termau.'

'Mae hon wedi bod yn broses gadarnhaol iawn. Mae adborth gan athrawon sydd wedi ymwneud â'r prosiect yn nodi'n glir yr hoffent weld y model hwn yn cael ei efelychu ar gyfer eu gwaith eu hunain yn y dyfodol a gwaith Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Nodwyd bod cyfleoedd i gydweithio rhwng ysgolion o werth sylweddol yn y broses hon, ac unwaith eto, argymhelliad yr athro yw hwyluso cydweithio pellach.'

'Mae hyder yn tyfu wrth ymgymryd â dulliau amrywiol ac mae'r broses yn dod yn fwy trwyadl, gan gasglu tystiolaeth o gymuned ddysgu ehangach a sicrhau mwy o ddilysrwydd o ran canlyniadau.'

5. Golwg gyffredinol ar addysgegau neilltuol newydd

5.1 Mae'r goblygiadau ar gyfer addysgeg neilltuol sy'n gysylltiedig â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi datblygu wrth i'r prosiect fynd yn ei blaen. Mae'n bwysig cofio bod dogfennau sy'n deillio o ddatblygu'r cwricwlwm yn parhau ar ffurf drafft yn unig a, hyd yma, nid yw ysgolion wedi cael digon o amser i ddechrau herio dulliau addysgegol mwy traddodiadol.

Fodd bynnag, mae nifer o themâu trosfwaol yn dechrau dod i'r amlwg o ymholiadau yng Nghylchoedd 1, 2 a 3 a fydd yn debygol o effeithio ar ymarfer addysgeg yn y dyfodol. Mae'r rhai sy'n ymwneud yn benodol â Mathemateg a Rhifedd yn cynnwys:

- Roedd staff mewn sawl ysgol yn gweld bod yr iaith o fewn y cwricwlwm Mathemateg a Rhifedd yn anodd ei deall, ac felly'n amlygu'r angen am enghreifftio ac egluro termau penodol;
- Yn yr un modd, soniodd staff a oedd yn gysylltiedig â'r maes dysgu a phrofiad Mathemateg a Rhifedd am werth sylweddol treulio amser, ar ddechrau'r broses ymholiadau, yn ymgyfarwyddo â therminolegau newydd. Nododd nifer o ysgolion angen dybryd i ddatblygu gwell dealltwriaeth gysyniadol o'r cwricwlwm newydd, er mwyn magu hyder yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm yn fwy cyffredinol;
- Bydd yn hanfodol datblygu iaith a rennir ar gyfer cyflwyno Mathemateg a Rhifedd ar draws y cwricwlwm, er y dylid gwneud hyn, o leiaf yn y lle cyntaf, ar lefel ysgol ac ni ddylid ei gydlynyn'n genedlaethol i ganiatáu ar gyfer y sybsidiaredd a fwriedir;
- Awgrymwyd y byddai angen cymorth ar ysgolion cynradd sydd heb arweinydd mathemateg arbenigol er mwyn hwyluso dysgu proffesiynol parhaus i uwchsgilio cydweithwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o drefniadau newydd;
- Nododd nifer o ysgolion y byddai angen cymorth er mwyn i ysgolion gynllunio ar gyfer cynnydd rhwng Camau Cynnydd;
- Yn gyffredinol, ymddengys fod ysgolion yn cydnabod y gall y cwricwlwm Mathemateg a Rhifedd newydd roi mwy o ryddid i ddatblygu dyfnder dealltwriaeth, ond roedd rhai yn pryderu y byddai mesurau atebolrwydd, yn eu ffurf bresennol, yn effeithio ar hyn;
- Mae 'Hyfedreddau' yr Egwyddorion Cynnydd wedi'u nodi'n aml fel meysydd lle mae angen dysgu proffesiynol ychwanegol. Archwiliodd grŵp o ysgolion a oedd ynghlwm wrth faes dysgu a phrofiad Mathemateg a Rhifedd y rhain fel ffocws cynllunio yn ystod Cylch 3, gyda chanlyniadau diddorol. Archwiliodd ysgolion eraill strategaethau a allai ymwneud â hyfedreddau penodol. Awgrymodd llawer o ysgolion y gallai'r rhain, gyda dysgu proffesiynol, fod yn sail ar gyfer datblygiad addysgeg mewn Mathemateg a Rhifedd. Codwyd enghreifftiau o waith dysgwyr ar Gamau Cynnydd gwahanol hefyd fel rhai a oedd yn haeddu ystyriaeth;

- Dywedodd ysgolion a oedd yn ymgysylltu â'r Hyfedreddau drwy Astudio Gwersi hefyd, eu bod, drwy arsylwi ar ddysgu, yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y neges gan y grŵp cwricwlwm Mathemateg a Rhifedd yn cael ei hatgyfnerthu, sef bod angen ystyried cyflymder y wers er mwyn sicrhau ymgysylltu dwfn (yn hytrach na dysgu ar lefel yr arwyneb a chyflymu);
- Archwiliodd sawl ysgol y cynllunio ar gyfer y pedwar diben, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn mabwysiadu dull thematig ar y cyfan. Mabwysiadodd un grŵp o ysgolion ddull dysgu trwy brofiad penodol dan arweiniad disgyblion ar ddiwedd thema'r tymor. Roedd yr ysgolion yn adrodd yn gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr yn gyffredinol. Roedd ystyriaethau megis gweithio adrannol, cynwysoldeb, a rheoli a logisteg tasgau ar draws meysydd dysgu a phrofiad yn codi gydag ysgolion uwchradd. Cafodd ystyriaethau megis y math o thema, a mynegiant rôl yr ymarferwr fel hwylusydd mewn tasgau arbrofol, eu codi gan ysgolion cynradd. Amlygwyd materion ehangach fel asesu wrth weithredu dulliau o'r fath hefyd;
- Mae'n werth nodi bod llawer o ymarferwyr o'r farn, er nad oedd yr un Hyfedreddau yn cael eu hystyried yn hierarchaidd, os oedd dealltwriaeth gysyniadol a rhuglder yn wael, roedd cymhwysedd strategol ac ymresymu rhesymegol yn frwydr anodd. Roedd llawer yn teimlo bod angen iddynt dynnu'n ôl a pheidio â rhuthro'r addysgu a'r dysgu o gysyniadau a bod dull 'araf a graddol' gyda digon o gyfleoedd, amser a lle i gyfnerthu cysyniadau yn sylfaenol. Gobeithient y byddai hyn yn fwy posibl mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd, yn hytrach na'r cwricwlwm 'gorlawn' presennol.

Mae'r rhai sy'n ymwneud â'r Dyniaethau yn cynnwys y canlynol:

- Modelau ar gyfer creu cwricwlwm rhyngddisgyblaethol yn y Dyniaethau, tra'n cynnal cyfanrwydd y disgyblaethau. Mater oedd yn codi droeon oedd defnyddio staff ag arbenigedd pwnc benodol i addysgu elfennau penodol o uned waith a'r tensiynau sy'n gynhenid rhwng gwahanol fodelau;
- Pwysigrwydd cynllunio ar draws cyfnodau, a dyfnhau dealltwriaeth o addysgu'r Dyniaethau, yn enwedig rhwng athrawon Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3;
- Y berthynas rhwng y pedwar diben a'r datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' ar gyfer y Dyniaethau wrth gynllunio'r cwricwlwm ar lefel ysgol;
- Yn yr un modd, ceir awgrym y bydd addysgu ar draws disgyblaethau yn gofyn am lefel newydd o greadigrwydd a dull arloesol o gynllunio gwersi. Gall hyn olygu bod angen newid deinameg amgylchedd yr ystafell ddosbarth, a chynllun sy'n fwy addas ar gyfer gweithio trawsgwricwlaidd;
- Dywedodd nifer o ysgolion nad oedd asesu gwaith wedi'i archwilio eto ac roedd hyn yn rhywbeth y gallent ei archwilio yn y flwyddyn academaidd 2019-20. Yn anecdotaidd, mae'n ymddangos bod cryn dipyn o ansicrwydd yn parhau yn y newidiadau allweddol rhwng y system asesu gyfredol a'r hyn a gynigir ar gyfer 2022;
- Mae'r drefn atebolrwydd yn parhau i fod yn destun pryder i ysgolion, o ran y rhyddid i arloesi a threialu dulliau newydd yn y tymor byr, ac o ran canlyniadau negyddol anfwriadol ar y system y tu hwnt i 2022. Nododd dwy ysgol nad oedd y gwaith yr oeddent wedi'i gynllunio wedi'i gwblhau gan fod yn rhaid defnyddio adnoddau mewn mannau eraill i baratoi ar gyfer arolygiadau Estyn;

- Mae'n werth nodi hefyd fod ansicrwydd parhaus ynghylch cymwysterau, ac a fydd TGAU mewn Dyniaethau yn well na chymwysterau penodol mewn pynciau mwy traddodiadol, megis hanes a daearyddiaeth. Bydd penderfyniadau polisi ynghylch dyfodol addysg 14-16 yn debygol o effeithio ar y dulliau addysgegol a ddefnyddir ym mlynnyddoedd cynnar yr ysgol uwchradd.

Mae'r rhai sy'n ymwneud â Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynnwys y canlynol:

- Roedd un Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol yn cydnabod pwysigrwydd sut i nodi cyfleoedd dysgu mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg sy'n galluogi dysgwyr i fod yn 'Gyfranwyr Mentrus a Chreadigol'. Gwnaeth yr ysgol dan sylw yr argymhellion canlynol:
 - i. Mae angen i ysgolion ddarparu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr gael rolau mewn timau h.y. wrth gynnal ymchwiliadau neu brosiectau grŵp a chymryd risgiau pwyllog;
 - ii. Hyfforddiant ychwanegol/offer digidol/adnoddau i'w darparu i alluogi ysgolion i ddefnyddio cyfryngau i fynegi syniadau ac emosiynau;
 - iii. Mae angen cefnogi ysgolion ymhellach er mwyn creu cysylltiadau â chwmnïau/busnesau lleol er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd y ffaith bod dysgwyr yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa a'u bod yn barod i chwarae rhan lawn yn eu bywyd a'u gwaith;
 - iv. Adnoddau/cymorth i ysgolion i helpu i gynhyrchu syniadau ar gyfer gweithgareddau a fydd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr roi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa ac yn barod i chwarae rhan lawn yn eu bywyd a'u gwaith.

Mae'r rhai sy'n ymwneud ag Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnwys y canlynol:

- Nododd un Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol sy'n canolbwyntio ar addysgeg y strategaethau addysgeg cydnabyddedig canlynol sy'n hyrwyddo annibyniaeth a gwydnwch mewn dysgwyr fel rhai sy'n haeddu ystyriaeth:
 - i. Dysgu gwrthdro gan ddefnyddio 'Cwestiwn Mawr' – Roedd y meini prawf llwyddiant eisoes wedi'u sefydlu. Trafododd y dosbarth ddyddiad cyflwyno wedi'i gytuno, a fyddai wedyn yn cael ei farcio gan gyfoedion. Credir bod rhai disgyblion wedi magu hyder yn eu galluoedd i ymchwilio'n annibynnol. Roeddent hefyd yn sylweddoli pwysigrwydd athro i'w harwain, heb roi'r ateb iddynt bob tro;
 - ii. Tri o'm blaen – wedi helpu dysgwyr i weld ble roedd y bylchau yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Y pwynt cyntaf oedd iddynt chwilio am yr ateb eu hunain a dod o hyd iddo. Os na allen nhw ddod o hyd i'r ateb yna bydden nhw'n gofyn i ffrind am help. Roedd hyn yn helpu i annog cydweithio, gyda'r disgyblion yn gweithredu fel athrawon a dysgwyr yn dibynnu ar ba mor hyderus oedden nhw gyda gwahanol bynciau. Dechreuodd y disgyblion geisio gweithio pethau allan drostynt eu hunain neu mewn cydweithrediad â chyfoedion a ffrindiau. Teimlwyd bod angen parhau i ddefnyddio hyn ym

mhob gwers, hyd nes y daw'n ail natur i ddisgyblion ofyn am help gan eraill/ffynonellau eilaidd cyn gofyn i'r athro;

- iii. Ymwybyddiaeth ofalgar – Roedd llawer o ddisgyblion wedi mwynhau'r cyfnod o ymlacio ar ddechrau'r wers. Canolbwyntio ar ymlacio ac anadlu er mwyn bod yn ddigynnwrf ac yn barod i wrando. I ddechrau, roeddent yn dawelach o lawer ac felly'n barod i ddysgu. Roedd rhai yn canfod ei fod o gymorth iddyn nhw ymdawelu a pheidio ag ymateb pan oedd eraill yn tynnu eu sylw. Roedd yn ddefnyddiol dechrau'r wers drwy egluro'r tasgau yn bwyllog, fel eu bod yn ei chael yn haws i wrando a deall.
- Cynhaliodd ysgol arall arolwg i nodi 'dull wedi'i brofi o addysgu a dysgu llwyddiannus ('pryd arbennig y cogydd'/saig boblogaidd') yr oeddent yn teimlo ei bod yn arbennig o berthnasol i ddysgu ar sail prosiectau'. Yn gyffredinol, roedd 21 aelod o staff yn cyflwyno eu dull 'pryd arbennig y cogydd' o addysgu a dysgu e.e. ymarfer cadair boeth gyda'r athro/athrawes mewn rôl, gemau bwrdd wedi'u creu ar gyfer y pwnc, defnyddio eu sianel YouTube eu hunain, a chyfoedion yn gweithio fel partneriaid.

Ymhlith y rhai sy'n ymwneud ag Iechyd a Lles yn cynnwys:

- Roedd diddordeb cryf i'r canlynol barhau a chael eu hystemyn mewn ysgolion uwchradd a chynradd: Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNP); y rhaglen Ysgolion Iach; y rhaglen THRIVE; ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh);
- Yr angen am fwy o ddysgu gan weithwyr proffesiynol iechyd meddwl gan fod hyn yn cael ei weld fel maes lle'r oedd bwlch o ran gwybodaeth a sgiliau;
- Mae allweddol arall lle mae angen mwy o ddysgu proffesiynol yw ym maes Llythrennedd Corfforol;
- Roedd cydweithio ag asiantaethau allanol hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig iawn o ran helpu i gefnogi dysgu proffesiynol mewn Iechyd a Lles.

Mae'r rhai sy'n ymwneud â Chelfyddydau Mynegiannol yn cynnwys y canlynol:

- Cafodd dysgu proffesiynol mewn rhai meysydd o'r celfyddydau mynegiannol ei godi fel blaenoriaeth, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, ar gyfer cerddoriaeth, dawnns a drama;
- Unwaith eto, ystyriwyd bod cydweithio ag asiantaethau allanol yn bwysig iawn o ran helpu i gefnogi dysgu proffesiynol yn y Celfyddydau Mynegiannol;
- Mae angen Dysgu Proffesiynol wrth ddefnyddio cyfryngau digidol a ffilm, gan gynnwys cerddoriaeth a golygu fideo, yn enwedig yn yr ysgolion cynradd;
- Roedd pryder penodol ynghylch asesu ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol.

6. Argymhellion allweddol

6.1 Gan farnu o waith prifysgolion gydag ysgolion eleni, mae'n dod yn glir y bydd angen sgiliau newydd ar staff addysgu sy'n ymwneud ag ymchwil a/neu

gyflwyniad i fathau o ymholi gweithredol i'w cefnogi i ddeall a chyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n datblygu. Mae'n bwysig nodi'r amrywioldeb eang rhwng ysgolion yn hyn o beth, a rhaid ystyried y ffaith y bydd ysgolion yn dechrau o leoedd gwahanol iawn. Buddsoddwyd cryn dipyn o amser ac egni i ddod â phob ysgol i fyny i lefel lle gall pob un gymryd rhan ystyrion yn y broses ymholi gweithredol. Caiff yr her hon ei dwysau wrth i'r broses o ymholi proffesiynol gynyddu, a rhaid i ni gofio'r newid meddylfryd sydd ei angen i ddatblygu athrawon fel ymholwyr proffesiynol.

6.2 Bydd angen ystyried cyfleoedd i'r gweithlu addysg gael eu huwchgilio mewn agweddau amrywiol ar ymholi gweithredol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Fel cam cyntaf, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o blaid ystyried llunio canllawiau a deunyddiau hygyrch i gynorthwyo athrawon wrth iddynt gymryd rhan mewn ymholi gweithredol. Ar hyn o bryd, ymddengys nad oes storfa gydnabyddedig ar gyfer y math hwn o weithgarwch ar gael i ysgolion yng Nghymru.

**Cynhaliwyd ymchwil yn ymwneud â'r pwyntiau a godwyd yn 6.1 a 6.2 gan PB, PMC a PCYDDS fel rhan o brosiect amrywio contract a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2019. Cyflwynwyd yr adroddiad i Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2019.*

6.3 O ran y sgiliau a'r gefnogaeth benodol sydd eu hangen i symud ymlaen i fod yn ymholwyr proffesiynol, roedd y meysydd a nodwyd yn cynnwys: mentora a hyfforddi; cymorth gan brifysgolion; hyfforddiant mewn ysgrifennu adroddiadau; a datblygu sgiliau ymhellach mewn strategaethau a dulliau ymholi proffesiynol. Ond cydnabuwyd hefyd fod angen cymysgu'r math hwn o ddysgu proffesiynol â threialu syniadau a chael adborth o brofiadau wrth weithredu'r newydd.

6.4 Nodwyd y bydd y dysgu proffesiynol sydd ei angen i gyflwyno a chynnal y cwricwlwm newydd yn llwyddiannus yn gofyn am ethos hollol newydd mewn ysgolion. Awgrymwyd y dylai hyn gynnwys y canlynol:

- Bod dysgu proffesiynol yn cael ei integreiddio i'r diwrnod ysgol a pheidio â bod yn 'ychwanegiad' neu'n gyfle i 'fynd ar gwrs';
- Bod dysgu proffesiynol yn rhan o reoli perfformiad ond nad yw'n cael ei reoli gan y broses mewn ffordd sy'n aml yn golygu ei fod yn dod yn 'ddigwyddiad blynyddol';
- Gweithwyr proffesiynol yn teimlo eu bod yn gweithredu fel cyfrwng ar gyfer nodi eu hanghenion dysgu proffesiynol a bod eu lles yn cael ei ystyried yn ystyriaeth bwysig yn hyn;
- Cysylltiadau cryfach â'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.

6.5 Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu darpariaeth dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar gynllunio a chynllunio'r cwricwlwm ('llunio cwricwlwm') a dylid ystyried pwy ddylai fod y 'grwpiau targed' priodol ar gyfer y ddarpariaeth hon.

- 6.6 Os yw'r tueddiad presennol ar gyfer dysgu 'wedi'i arwain gan asesu' i'w ddisodli gan 'asesu ar gyfer dysgu' yn y cwricwlwm newydd, mae dysgu proffesiynol yn y maes hwn hefyd yn hollbwysig.
- 6.7 Dylai model ar gyfer dysgu proffesiynol cydweithredol, ysgol-ganolog gyda rhwydwaith ysgol-i-ysgol fod yn nodwedd allweddol o'r Dull Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol a'r prosiect Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu.
- 6.8 Dylai'r ethos newydd sydd ei angen i sicrhau bod dysgu proffesiynol yn ganolog i'r cwricwlwm newydd fod yn un o bryderon allweddol y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar 'Ysgol y Dyfodol'.
- 6.9 Mae angen gweithredu ar rôl AGA, asiantaethau allanol a staff cymorth wrth gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- 6.10 Argymhellodd nifer o Ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol y dylid annog ysgolion uwchradd i ymweld ag ysgolion cynradd partner fel y bo'n briodol er mwyn arsylwi ar strategaethau a ddefnyddir i gael cipolwg ar sut i feithrin sgiliau annibyniaeth a gwydnwch disgyblion. Mae hyn yn adeiladu ar arsylwad mwy cyffredinol sy'n ymwneud â'r angen am addysgeg gyffredin ar draws cyfnodau, wedi'i saernïo gan gydweithwyr cynradd ac uwchradd.
- 6.11 Mae ysgolion sy'n ymgymryd ag ymholiadau dysgu fel prosiect wedi argymhell yr angen am synergeddau gwell rhwng cynllunio, deilliannau ac arbenigeddau mewn ysgolion, er eu bod yn dal heb benderfynu a ellid cynyddu hyn yn raddol i flynyddoedd uwch mewn addysg.
- 6.12 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod llais y disgybl yn cael ei ystyried yn rhan allweddol o ymchwil bellach i weithredu cwricwlwm a yrrir gan ddiben mewn modd effeithiol. Yn yr un modd, mae angen ymchwilio i gyfleoedd i ddysgwyr arwain a chwarae rolau mewn timau mewn modd effeithiol.
- 6.13 Roedd un Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol wedi cyfleu materion penodol yn ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer offer 'penodol ar gyfer meysydd dysgu a phrofiad', nifer o ffactorau yn ymwneud â'r asesiadau a systemau adrodd i rieni o fewn y cwricwlwm newydd ar gyfer 2022, a'r mathau o ddysgu proffesiynol athrawon i'w treialu/gweithredu a'u gwerthuso'n gadarn; yn ogystal, mae'r mapio cyffredinol sydd ei angen ar gyfer ysgolion uwchradd gydag ystyriaethau amserlennu a allai fod yn werth eu hystyried ymhellach wrth i'r cwricwlwm newydd ddatblygu.
- 6.14 Dywedodd o leiaf un brifysgol fod ysgolion wedi croesawu'r cyfle i gymryd rhan mewn gwahanol ffurfiau o ymholi proffesiynol sy'n gweddu orau i anghenion eu hysgolion a'u cyd-destunau eu hunain. Mae hyn wedi golygu bod y dull o ymholi proffesiynol wedi amrywio, er bod staff y brifysgol wedi egluro bod gwahaniaethu i'w groesawu ac na ddylid tanbristio ymgysylltiad proffesiynol â'r broses ymholi gweithredol.

- 6.15 Efallai y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o ddatblygu sgiliau sy'n ymwneud ag ymholi proffesiynol gan ddefnyddio HMS statudol, yn enwedig yng ngoleuni datganiad polisi diweddar ynghylch ychwanegu diwrnod HMS newydd i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm.
- 6.16 Mae PCYDDS yn credu y dylid ystyried blwyddyn gyntaf y prosiect fel blwyddyn beilot, lle cyflwynwyd ysgolion i'r theori, y cysyniad a'r strwythur sy'n sail i ymholiad proffesiynol effeithiol dan arweiniad athrawon. Mae'r brifysgol yn fodlon y bydd y gwaith cychwynnol hwn yn datblygu hyder a sgiliau ymarferwyr i ddod yn ymholwyr proffesiynol, a thrwy hynny eu paratoi ar gyfer ymchwil dyfnach, mwy ystyrion yn agos at yr ymarfer yn 2019-20.
- 6.17 Mae'r pwyslais mae ysgolion yn ei roi ar yr amser a'r gefnogaeth y bydd eu hangen i ddatblygu cwricwla sy'n addas i'w hanghenion a'u cyd-destun yn awgrymu y bydd angen dechrau rhaglen newid genedlaethol fawr o fis Medi 2019 os yw'r cwricwlwm i gael ei weithredu'n llwyddiannus rhwng 2022 a 2026.
- 6.18 Er bod pwysigrwydd y broses reoli hon yn cael ei gydnabod yn llawn, mae cydnabyddiaeth sydd hyd yn oed yn gryfach y bydd gweithredu'r cwricwlwm yn llwyddiannus yn dibynnu yn y pen draw ar y dysgu proffesiynol a ddarperir i athrawon a staff cymorth. Ni ellir tanbrisio graddfa ac ansawdd y ddarpariaeth sydd ei hangen.
- 6.19 Mae PCYDDS yn argymhell, cyn blwyddyn academaidd 2019-20, y byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru egluro'n glir i ysgolion, prifysgolion a chonsortia addysg rhanbarthol beth yw ei dyheadau o ran y prosiect ymholiadau proffesiynol.
- 6.20 Dylai rôl ar wahân rhannau allweddol o system addysg Cymru, yn enwedig y consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol a'r system addysg uwch, wrth gefnogi ysgolion i ymgymryd â'r newid hwn o ran rheoli a datblygu dysgu proffesiynol gael ei egluro a'i weithredu.
- 6.21 Mae angen llawer mwy o eglurder o ran dyfodol asesu, atebolrwydd a chymwysterau, os yw'r amgylchedd iawn i gael ei greu ar gyfer y datblygiadau rheoli newid a dysgu proffesiynol sydd eu hangen. Mae'r rhain yn alluogwyr allweddol ac ni ddylid eu gohirio tan yn ddiweddarach yn y broses.
- 6.22 Bydd angen cydgysylltu'r rôl y gall asiantaethau allanol ei chwarae i gefnogi'r cwricwlwm lleol mewn modd cenedlaethol/rhanbarthol, er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar brofiadau dysgu a chyfoethog dilys i ddisgyblion.
- 6.23 Mae ysgolion wedi awgrymu y gallai dull mwy cydgysylltiedig o ddiwygio'r cwricwlwm, sy'n cynnwys grwpiau/arweinwyr arloesi'r Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol, fod o fudd ar y cam hwn yn y broses diwygio addysg. Mynegwyd diddordeb mewn cyfarfod o arweinwyr y consortia rhanbarthol/meysydd dysgu

a phrofiad i ledaenu rhywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Ysgolion Arloesi priodol, ac mae galw am ffurfio 'gweithgorau' cydweithredol, ac fe nodwyd hynny'n briodol. Byddai'r grwpiau hyn, i bob pwrpas, yn tynnu pob llinyn gwaith ynghyd ac yn darparu dull mwy cydgysylltiedig o fynd i'r cam nesaf o ddatblygu'r cwricwlwm, gan gynnwys y ddwy set o Ysgolion Arloesi.

6.24 Yn yr un modd, awgrymwyd bod annibyniaeth yn rhwystr sylweddol i gydweithio effeithiol rhwng dysgwyr, a rhaid i ysgolion gael eu rhyddhau i rannu eu profiadau a/neu eu hymarfer mewn ffordd rydd ac agored. Fel y gwelir yn y ddau ddatganiad canlynol gan ysgolion:

'Mae athrawon yn aml yn gyndyn i roi gormod o annibyniaeth i ddysgwyr, gan eu bod yn teimlo y gallai hyn effeithio ar ganlyniadau. Byddai rhannu astudiaethau achos arferion da ac ymweliadau arferion da rhwng ysgolion yn helpu athrawon i oresgyn y rhwystr hwn.'

'Mae angen rhoi'r cyfle i glystyrau gynllunio a datblygu eu cwricwlwm gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau bod athrawon yn manteisio i'r eithaf ar brofiadau dysgu, yn unol â'r llinynnau o fewn pedwar diben craidd y cwricwlwm newydd i Gymru.'

6.25 Mae potensial enfawr o ran y cwricwlwm newydd ar gyfer cryfhau ymgysylltiad teuluoedd a'r gymuned ag ysgolion, ond mae angen goresgyn heriau sylweddol os yw hyn i gael ei wireddu.

6.26 O ran dysgu drwy brosiectau, roedd PB yn argymhell y dylid neilltuo digon o amser ar gyfer cynllunio a gweithredu, yn ogystal â rhoi ystyriaeth briodol i addased a chydaddoldeb dysgu drwy brosiectau ar gyfer gweithredu eilaidd.

6.27 Nodwyd y dylai ymholiad proffesiynol fod yn rhan greiddiol o AGA, fel yr amlinellir yn yr ymatebion canlynol gan ysgolion:

'Credwn fel clwstwr mai AGA yw'r cyfrwng ar gyfer sicrhau dull addysgu a dysgu a arweinir gan ymholiadau.'

'Mae angen datblygu methodoleg ymchwil yn addysg gychwynnol athrawon ond wedi'i gwreiddio drwy addysgeg.'

6.28 Wrth i'r prosiect symud i fodel darparu rhanbarthol yn 2019-20, mae'n rhaid i'r holl bartneriaid a deiliad y contract gofio'r amser a'r egni y bydd eu hangen i feithrin perthynas waith gadarnhaol gydag Ysgolion Arloesi newydd. Bydd pob un o'r tair prifysgol sy'n darparu cymorth ymholiadau proffesiynol yn gweithio gyda nifer o ysgolion newydd o fis Medi, ac mae ennill ymddiriedaeth/cydwdealltwriaeth o ofynion gweithio yn y dyfodol o'r pwys mwyaf. Ni ellir tanbrizio'r broses hon o 'ddod i adnabod ein gilydd'.

7. Ystyriaethau/pryderon

7.1 Roedd rhai ysgolion yn dymuno cyfleu eu gwerthfawrogiad o gyfranogiad y consortia addysg rhanbarthol am gefnogi a chynnal ymgysylltiad/brwdfrydedd wrth gynnal ymholiadau ymchwil, drwy ddefnyddio ystod amrywiol o ddulliau, negeseuon e-bost, cyfarfodydd ac ati.

7.2 Mae effaith y system atebolrwydd bresennol lle mae llawer yn y fantol yn thema sy'n codi dro ar ôl tro ac fe'i codwyd fel mater o bwys. Adroddodd nifer o ysgolion am effaith tagu mecanweithiau atebolrwydd ar greadigrwydd ac arloesedd. Nododd ysgolion bwysau yn ymwneud â deilliannau TGAU, Estyn a Chategoreiddio Ysgolion Cenedlaethol fel rhai oedd yn effeithio ar ymgysylltiad staff ag ymholi proffesiynol, gydag arweinwyr ysgol yn ymwybodol o'r ffactorau allanol sy'n gyrru ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Fel y nododd un ysgol:

'Mae pryder o hyd ynghylch y mesurau atebolrwydd ar gyfer... athrawon e.e. mae eu meddyliau yn dal i gael eu gyrru gan safonau – eisiau gwybod beth mae disgwyl i ddisgyblion ei wneud/ei gyflawni ar lefel TGAU ac yna eisiau creu cwricwlwm sy'n mynd yn ôl o'r man cychwyn hwnnw. Gan ddibynnu ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda mesurau atebolrwydd – e.e. safonau vs. cywirdeb hunanarfarnu – gall olygu y gallai fod yn rhaid i'r rhagsyniad hwn newid.'

7.3 Nododd ysgolion bwysigrwydd ariannu ar gyfer effeithiolrwydd a chynaliadwyedd ymholi proffesiynol, gydag athrawon angen yr amser a'r lle i ymgysylltu'n bwrpasol mewn gweithgareddau cysylltiedig. Roedd peth pryder y byddai ysgolion, heb chwistrelliad o arian ychwanegol i ryddhau staff yr ysgol i ddatblygu fel ymholwyr proffesiynol, yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu'n ystyrion ag arferion ymchwil. Adroddwyd hefyd fod ysgolion yn ei chael hi'n fwy anodd ymgysylltu ar adegau penodol o'r flwyddyn, e.e. yn ystod Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ac arholiadau TGAU/safon Uwch. Roedd yr adborth gan ysgolion yn cynnwys:

'Mae'n amlwg, yn wyneb gweithredu'r cwricwlwm newydd, bod athrawon yn gwerthfawrogi gweithio mewn cyd-destun cefnogol y tu hwnt i gyfyngiadau eu hysgol eu hunain wrth i ni ddod o hyd i'n ffordd. Mae'r cyllid sydd ar gael a'r cyfleoedd i wneud hyn ar draws ysgolion clwstwr yn broblem.'

'Yr her fwyaf rwyf wedi'i hwynebu gyda'r ymholiad hwn yw rheoli'r prosiect tra bod angen rhoi blaenoriaeth i fy nosbarthiadau arholiad a fy rolau eraill fel cydlynnydd rhifedd a rheolydd data. Mae dod i gasgliadau ystyrion o'r gwaith a wnaed wedi bod yn dipyn o her ac wrth edrych yn ôl byddwn wedi dewis cwestiwn gwahanol lle byddai'n haws mesur canlyniadau.'

'Mae angen i LIC greu amser ar gyfer ymholi proffesiynol; mae calendrau ysgolion yn llawn.'

'Roedd llawer o'r staff yn awyddus i gymryd rhan ac arwain ymchwil, ond mae amser yn broblem enfawr sy'n effeithio ar ganlyniadau. Mae disgwyliadau presennol staff addysgu a gofynion presennol amserlenni strwythuredig,

gorlawn a'r gofynion gan fentrau consortia cenedlaethol a lleol yn atal y gweithlu addysg rhag cymryd rhan mewn Ymholiad Proffesiynol Cydweithredol Beirniadol.'

'Mae angen amser ar athrawon i ddatblygu fel ymchwilwyr ac ymgyfarwyddo â phapurau ymchwil amrywiol.'

'Mae angen amser ar athrawon i ddatblygu sgiliau mewn ymchwil.'

7.4 Adroddodd rhai ysgolion eu bod wedi elwa o fod wedi cymryd rhan yn y gwaith Camau ar ddatblygu'r cwricwlwm gyda chynrychiolwyr o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow. Mae eu cyfranogiad fel Arloeswyr y Cwricwlwm wedi sicrhau bod staff yn yr ysgolion hynny wedi bod yn fwy cyfarwydd â'r dogfennau cwricwlwm diweddaraf a'u bod, felly, wedi canfod bod yr ymgysylltu cychwynnol ag ymholiadau proffesiynol yn haws. Yn yr un modd, nododd nifer o ysgolion yr heriau sy'n gysylltiedig â pheidio â bod yn rhan o ddatblygu'r cwricwlwm cyn dechrau ar ymholiad proffesiynol. Ymddengys fod yr ysgolion hyn gryn dipyn ar ei hôl hi o ran eu dealltwriaeth ac felly rhaid ystyried y gwahanol lefelau o ymgysylltu â'r drafodaeth ar ddiwygio'r cwricwlwm. Mae barn un ysgol, yn arbennig, yn berthnasol yn y cyswllt hwn:

'Roedd y staff yn canfod bod y derminoleg a ddefnyddir yn y maes dysgu a phrofiad yn anodd ar brydiau – mae angen mynd i'r afael â hyn gyda chyfleoedd dysgu proffesiynol i staff er mwyn sicrhau hyder yn y proffesiwn. Roedd y staff yn cael trafferth gyda diffyg fframwaith yn y camau cynnydd – mae angen mynd i'r afael â hyn gydag enghreifftiau o wybodaeth, sgiliau a phrofiad a chyfleoedd dysgu proffesiynol.'

7.5 Nododd rhai ysgolion broblemau wrth geisio gweithio ar draws clystyrau. Nodwyd bod cydweithio effeithiol yn dibynnu ar ymgysylltiad cadarnhaol ysgolion unigol. Mae rhai arloeswyr dysgu proffesiynol wedi'i chael hi'n anodd cymryd rhan mewn gweithgarwch clwstwr gan nad yw cydweithwyr mewn ysgolion eraill wedi bod mewn sefyllfa i gymryd rhan. Mae ffactorau sy'n effeithio ar gyfranogiad wedi cynnwys monitro/arolygu gan Estyn, ymrwymiad i gonsortia addysg rhanbarthol, absenoldeb staff, a newidiadau o ran arweinyddiaeth personél/ysgol. Mae'r ffactorau hyn, mewn rhai achosion, wedi llesteirio'r arfer o ledaenu arferion sy'n ymwneud ag ymholi proffesiynol a dylid eu hystyried yn briodol wrth symud ymlaen. Yn yr un modd, mae ysgolion wedi nodi'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â phartneriaid 'newydd', a'r amser a'r egni sydd eu hangen i ddeall lleoliadau ei gilydd. Cyfeiriwyd hefyd at y dull gwahanol o gydweithio a ddefnyddir gan gonsortia addysg rhanbarthol, gyda pheth ymrwymiad mawr i weithio mewn clystyrau drwy fodolau megis grwpiau gwella ysgolion. Mae hyn wedi rhoi rhai ysgolion mewn sefyllfa fanteisiol o'u cymharu ag eraill, gan ei fod yn lleihau'r angen i dreulio amser yn meithrin perthynas newydd. Ar y llaw arall, soniodd ysgolion a sefydlodd grwpiau newydd am ymateb cadarnhaol cydweithio a oedd yn caniatáu rhannu syniadau a dealltwriaeth o wahanol leoliadau.

Waeth beth fo'r ffurf strwythurol, ystyriwyd bod meithrin perthynas ac ymddiriedaeth yn hanfodol i ddatblygiad llwyddiannus y prosiect hwn. Gwnaeth dwy ysgol sylwadau tebyg:

'Byddai'n well cefnogi gwaith yn y dyfodol pe bai cylch ymgysylltu lle y gallem ymweld a gwyllo amgylcheddau ein gilydd, a fyddai wedi arwain at ddeialogau mwy gwybodus am rai o'r heriau y mae ein hysgolion yn eu hwynebu (yr oeddem yn glwstwr cwbl newydd yn gweithio ar y prosiect hwn heb unrhyw gysylltiadau partneriaeth sefydledig). Byddai adeiladu'r ymddiriedaeth hon wedi bod o gymorth i ni gynllunio ein hymchwiliad yn well.'

'Pan fo staff yn gweithio gyda'i gilydd am y tro cyntaf yna mae angen cynllunio ar gyfer amser i ddatblygu perthynas gadarnhaol ac ymddiriedaeth cyn arsylwi (ni ellir tanbriso hyn). Roedd yn ymddangos bod ysgolion mewn gwahanol gonsortia yn elwa ar grwpiau a oedd wedi'u sefydlu'n flaenorol, e.e. Grwpiau Diddordeb Arbennig.'

- 7.6 Cafodd pwysigrwydd arweinyddiaeth gref o ran llywio ffordd drwy newidiadau sydd i ddod ei godi gan ysgolion. Mae'r graddau y caniateir i athrawon gymryd rhan yn hyn a phrosiectau cysylltiedig yn dibynnu'n helaeth ar arweinyddiaeth ysgolion, a gallu arweinwyr ysgolion i ddarparu cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu proffesiynol. Fel y nododd un ysgol:

'Yr her fydd cael ymarferwyr i stopio a symud oddi wrth y ffaith eu bod yn dychwelyd at yr atebion arferol eu bod yn 'gwneud hyn yn barod' a'u bod yn bachu ar y cyfle i ystyried pwrpas ac athroniaeth y cwricwlwm newydd a myfyrio ar eu harferion yn unol â hynny.'

- 7.7 Mae PCYDDS wedi croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y prosiect hwn a'i gyd-arwain, gyda'i phrifysgolion partner, ac mae'n credu'n gryf bod athrawon sy'n ymwneud â chylchoedd ymholi wedi elwa ar y cyfle i fyfyrto, arloesi a phrofi ymarfer newydd o fewn y paramedrau llac y cytunwyd arny'n nhw ar y dechrau. Fodd bynnag, mae'r brifysgol wedi ailadrodd, er ei bod yn ystyried bod ymholiad proffesiynol o werth di-os, nid yw'n credu bod y prosiect hwn yn gydnaws â chefnogi cynllunio'r cwricwlwm yn fwy penodol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y gwaith hwn a pharatoi ac uwchsgilio'r proffesiwn addysgu yng Nghymru cyn lansio'r cwricwlwm cenedlaethol newydd yn glir, a byddai PCYDDS yn argymhell bod pob llinyn gwaith yn cael ei wahanu er budd eglurder. Wrth symud ymlaen, byddai PCYDDS yn croesawu'r cyfle i rannu ein profiad o weithio gydag Ysgolion Arloesi er mwyn llywio'n well y gwaith o ddatblygu rhaglenni dysgu proffesiynol pwrpasol i gefnogi cynllun y cwricwlwm.

8. Ffocws a awgrymir ar gyfer y cylch ymholi nesaf

- 8.4 Mae PCYDDS yn fodlon ar y cynnydd ar draws y tri chylch ymholiad a gynhaliwyd yn ystod 2018-19. Fodd bynnag, yng ngoleuni adborth gan ysgolion, mae'r brifysgol o'r farn nad oedd cynnal tri chylch newydd mewn cyn lleied o amser yn addas ar gyfer ymchwil trylwyr a chanfyddiadau terfynol. Byddai'n awgrymu felly bod y prosiect hwn yn ceisio dwysáu ymholiadau dros gyfnod hwy yn 2019-20. Byddai hefyd yn argymhell bod ysgolion yn dechrau

lledaenu eu canfyddiadau ac, yn wir, brosesau fel mater o drefn ymysg ysgolion partner a chlystyrau. Fodd bynnag, roedd ysgolion PCYDDS yn gwerthfawrogi cael pwyntiau gwirio rheolaidd wrth i'r prosiect fynd rhagddo ac felly byddai'r brifysgol yn awgrymu bod dull tebyg yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

- 8.5 Ar gyfer PB a'i hysgolion, bydd y pedwerydd cylch ymholi yn canolbwyntio ar y goblygiadau dysgu proffesiynol i ysgolion yn sgil y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad fel y nodir yn y fanyleb a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Mehefin, 2019. Bydd Ysgolion Ymholiad Arweiniol yn dyfnhau ac yn ymestyn cylchoedd ymholi i barhau i archwilio goblygiadau dysgu proffesiynol y cwricwlwm newydd, ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Bydd y llinyn gwaith hwn yn llywio'r broses o ddatblygu Ymagwedd Genedlaethol at Ymholi Proffesiynol i sicrhau bod gan bob ymarferydd y sgiliau i weithredu'r cwricwlwm newydd yn llawn gan gydweithio â'r Rhwydweithiau Cenedlaethol newydd (x 7) i gynnal ymholiadau i gefnogi eu gweithgareddau.
- 8.6 Gan fanteisio ar y profiad datblygiadol a gafodd yn 2018-19, mae PMC yn edrych ymlaen at gyfnerthu a chyfoethogi ei waith gydag arloeswyr yn 2019-2020. Symud o faterion troswaol megis arwain, rheoli, llunio cwricwlwm a dysgu proffesiynol, sydd wedi bod yn ganolbwynt cylchoedd ymholi PMC yn 2018-19, i ymholiadau culach a mwy personol wedi'u tynnu o ddewislen genedlaethol, yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen ym marn y brifysgol.

Atodiad 1: Ysgolion sy'n cymryd rhan ym Mhrosiect Ymholiadau Proffesiynol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (yn ôl prifysgol partner)

Prifysgol Bangor

Ysgol Gyfun Coedcae
Ysgol Gyfun Gwŷr
Ysgol Gyfun Y Pant
Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
Ysgol Gyfun Porthcawl
Ysgol Gynradd Arbennig Pen Coch
Ysgol Bryn Eilian
Ysgol Gynradd Gilwern
Ysgol Gymraeg Castell Nedd
Ysgol Gyfun Maesteg
Ysgol Gynradd Rhydypenau
Ysgol Gynradd Oldcastle
Ysgol Bro Tryweryn
Ysgol Gynradd Gilwern
Ysgol Gynradd Glan Wysg
Ysgol O. M. Edwards
Ysgol Gatholig St Philip Evans

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn
Ysgol Cardinal Newman, Pontypridd
Ysgol Gynradd Herbert Thompson
Ysgol Cynwyd Sant
Ysgol Gynradd Tregatwg
Ysgol Gwynedd
Ysgol Arbennig Sant Christopher
Ysgol Manod
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Ysgol Gynradd Sant Julian, Casnewydd
Ysgol Gynradd Aberteifi
Ysgol Gymraeg Aberystwyth
Ysgol Gymunedol Cwmtawe
Ysgol Uwchradd Crucywel
Ysgol Gynradd Christchurch
Ysgol Arbennig Canolfan Tai
Ysgol Gyfun Stanwell
Ysgol Gyfun Treorci
Ysgol Gynradd Rhws
Ysgol Uwchradd Caerdydd
Ysgol Uwchradd y Fflint
Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin
Ysgol Brenin Harri VIII, y Fenni

Ysgol Gymunedol Doc Penfro
Ysgol John Frost
Ysgol Gynradd Pontarddulais
Ysgol Gynradd Treftadaeth Blaenafon
Ysgol Gynradd Ystrad Mynach
Ysgol Gynradd Santes Gwladys
Ysgol Gynradd Rhisga
Ysgol Arbennig Heronsbridge

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Ysgol Gynradd Ynys y Barri
Ysgol Gynradd Craig yr Hesg
Ysgol Gyfun y Bont-faen
Ysgol Cefn Hengoed
Ysgol Gynradd Stryd Siôr
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg
Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd
Ysgol Gynradd Llanisien Fach
Ysgol Arbennig Penmaes
Ysgol Eirias
Ysgol Gyfun Bryngwen
Ysgol Gynradd Langstone
Ysgol Gynradd Millbrook
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Ysgol Llandrillo yn Rhos
Ysgol Gynradd Romilly
Ysgol Uwchradd Aberteifi
Ysgol Cil-y-coed
Clwstwr Ysgolion Uwchradd Meirionnydd
Ysgol Gynradd Eveswell
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Priordy
Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant
Ysgol Gyfun Tredegar
Ysgol Bro Pedr
Ysgol Casnewydd
Ysgol Glan Gele
Ysgol y Preseli
Ysgol y Strade

Atodiad 2: Staff Prifysgol sy'n arwain ar y Prosiect Ymholiadau Proffesiynol Cenedlaethol (yn ôl prifysgol partner)

Prifysgol Bangor

Yr Athro J. Carl Hughes
Yr Athro Enlli Môn Thomas
Dr Bryn Jones
Gwilym Siôn ap Gruffudd

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Yr Athro David Egan
Dr David Aldous
Dr Anna Bryant
Dr Lowri Edwards
Bethan Gordon
Yr Athro Gareth Loudon
Gemma Mitchell

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Gareth Evans
David Stacey
Rachel Wallis